



TRAFNIDIAETH CYMRU  
TRANSPORT FOR WALES

# Cerdyn Rheilffordd Calon Cymru

Abertawe – Llandrindod – Amwythig

Yn ddilys tan 31 Rhagfyr 2021



© Hafwraith y Goron (2007) Creadd Cymru, oedwir pob haw.

TW0021



THE HEART OF WALES LINE  
RHEILFFORDD CALON CYMRU

# Gwerth am arian

Dim ond £12.50 yw cost Cerdyn Rheilffordd Calon Cymru ac mae'n cynnig gostyngiad o draean ar yr holl docynnau trên dosbarth safonol unigol ar y llinell. Mae'r cerdyn yn ddilys ar unrhyw un o wasanaethau Rheilffordd Calon Cymru a gall gwneud teithiau i siopa neu fwynhau'r cefn gwlad godidog neu'r trefi marchnad hyfryd yn llawer rhatach.

Yn ogystal, caiff deiliaid y cerdyn fynd ag un neu ddau o blant (o dan 16 oed) am £2 yr un - unffordd neu ddwyffordd. Gall cynigion eraill i blant dan 16 oed fod ar gael ar gyfer eich taith, a gallai'r rhain gynnig gwell gwerth am arian. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [trctrenau.cymru/teithio-o-dan-16](http://trctrenau.cymru/teithio-o-dan-16).

Gydag ychydig o deithiau'n unig, bydd y cerdyn rheilffordd yn talu amdano'i hun yn fuan iawn – po fwyaf y byddwch yn teithio, mwyaf y byddwch yn ei arbed.

Mae'r cerdyn rheilffordd yn ddilys am 12 mis o ddyddiad ei ddyroddi.

## Manteision Cerdyn Rheilffordd Calon Cymru

Mae gan ddeiliaid y cerdyn rheilffordd hawl i brynu tocynnau dosbarth safonol ar gyfer unrhyw deithiau ar Rheilffordd Calon Cymru, i ac o orsafoedd rhwng Abertawe ac Amwythig, gyda gostyngiad o draean ar docynnau unffordd a dwyffordd safonol. Mae amodau tocynnau cenedlaethol yn berthnasol.





## Pryd allwch chi ddim defnyddio'ch Cerdyn Rheilffordd Calon Cymru:

- I brynu tocynnau tymor am brisiau gostyngol
- Ar drenau gwibdaith arbennig (h.y. heb eu dangos ar yr amserlen gyhoeddus)
- Gydag unrhyw docynnau crwydro (Rail Rover) (e.e. Tocyn Crwydro Diwrnod Rheilffordd Calon Cymru (Heart of Wales Day Ranger) a Phas Archwilio Cymru (Explore Wales Pass) oni'ch cynghorir yn benodol fel arall
- Ar y cyd gyda thocynnau hyrwyddiadau arbennig – oni'ch cynghorir yn benodol fel arall
- I deithio ymhellach nag Amwythig neu Abertawe
- Ar y cyd gyda gostyngiad tocynnau grŵp bach (Small Group Day)
- Ar y cyd gydag unrhyw gerdyn rheilffordd cenedlaethol neu leol arall (h.y. Llinellau'r Cambrian neu Sir Benfro)
- Nodwch y gellir defnyddio'r Cerdyn Rheilffordd dim ond, i'r naill gyfeiriad neu'r llall, ar wasanaethau Rheilffordd Calon Cymru rhwng Abertawe, Llanelli, Llandrindod, Craven Arms ac Amwythig.



Ni ddangosir pob gorsaf

## Amodau defnyddio

- Nid yw Cerdyn Rheilffordd yn ddilys oni bai ei fod wedi'i lofnodi gan y deiliad, ac ni ellir ei drosglwyddo i unrhyw un arall. Mae tocynnau a brynir gyda'r cerdyn i'w defnyddio gan ddeiliad y cerdyn yn unig.
- Nid yw'r cerdyn rheilffordd yn dod yn eiddo i chi, ac os gofynnir rhaid ei roi i Trafnidiaeth Cymru.
- Pan fo staff y rheilffordd yn gofyn, rhaid i'r deiliad ddangos cerdyn rheilffordd dilys, neu bydd yn rhaid talu'r pris safonol llawn fel pe na bai ganddo gerdyn rheilffordd.
- Os caiff y cerdyn rheilffordd ei ddfwyno neu ei dorri, neu os bydd yn annarllenadwy, ni fydd yn ddilys.
- Os byddwch chi'n colli neu'n difrodi eich cerdyn, bydd rhaid prynu un arall.
- Gall cynigion eraill i blant dan 16 oed fod ar gael ar gyfer eich taith, a gallai'r rhain gynnig gwell gwerth am arian. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [trctrenau.cymru/teithio-o-dan-16](http://trctrenau.cymru/teithio-o-dan-16).

## Dilysrwydd Tocynnau Gostyngol

- Caniateir teithio'n unol â dilysrwydd arferol y tocynnau a ddyroddir ar yr amod y delir ac y dangosir cerdyn rheilffordd dilys ar gais.
- Mae tocynnau gostyngol yn ddilys dim ond i deithio ar wasanaethau Rheilffordd Calon Cymru a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru ac maent yn peidio â bod yn ddilys ar ôl i'r cerdyn rheilffordd ddod i ben.
- Mae tocynnau'n ddarostyngedig i Amodau Teithio National Rail ac i'r amodau hynny a restrir yn y daflen hon.
- Os bydd anghydfod, yr amodau yn y daflen hon fydd yn berthnasol.
- Mae'n bosibl y bydd y telerau ac amodau'n newid. I gael manylion, ymholwch yn yr orsaf â staff agosaf i chi, dros y ffôn neu ar-lein.

## Sut i ddefnyddio'ch Cerdyn a phrynu tocynnau

Os oes cyfleusterau ar gael, dylid prynu tocynnau cyn mynd ar y trê.

Os na wneir hyn, bydd yn ofynnol i ddeiliaid cerdyn rheilffordd dalu cost lawn tocyn unffordd safonol ar y trê heb fantais unrhyw ostyngiad.

Os nad oes cyfleusterau gwerthu tocynnau yn yr orsaf, gellir prynu tocynnau ar y trê am y pris gostyngol priodol.

## Rhagor o wybodaeth

(nid i wneud cais am gerdyn rheilffordd)

[trctrenau.cymru](http://trctrenau.cymru)

Lawrlwythwch ap TfW Rail

0333 3211 202 - 0800 – 2000 Dydd Llun i Ddydd Sadwrn / 1100 – 2000 dydd Sul (codir pris galwad leol ar alwadau i rifau 03 o linellau ffôn BT)

Freepost TFW RAIL CUSTOMER RELATIONS

Twitter @TfWrail

Instagram @TfWrail

Facebook @RheilfforddTrC.TfWRail

WhatsApp 07790 952507

I gael syniadau am ddiwrnodau gwych allan, ymwelwch â [www.heart-of-wales.co.uk/cy/home](http://www.heart-of-wales.co.uk/cy/home)

## Sut i gael Cerdyn Rheilffordd Calon Cymru

I gael eich cerdyn rheilffordd bydd angen i chi ddarparu prawf preswylfa yn yr ardal briodol, e.e. trwydded yrru, bil treth gyngor neu fil cyfleustodau; a thâl.

Mae cardiau rheilffordd ar gael o Ganolfan Teithio Rheilffordd Calon Cymru, Gorsaf Reilffordd Llandrindod a'r Swyddfeydd Tocynnau yn Abertawe, Llanelli a'r Amwythig yn ystod oriau agor.

Mae'r Ganolfan Teithio yn Llandrindod ar agor rhwng 0845 a 1630 dydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 0645 a 1200 dydd Sadwrn. Mae'r swyddfeydd tocynnau yn Abertawe, Llanelli a'r Amwythig ar agor:

Abertawe: 0515 – 2000 (Dydd Llun i ddydd Gwener), 0615 – 2000 (Dydd Sadwrn) a 0800 – 2000 (Dydd Sul)

Llanelli: 0610 – 1240 (Dydd Llun i ddydd Gwener), 0700 – 1330 (Dydd Sadwrn)

Amwythig: 0520 – 2040 (Dydd Llun i ddydd Gwener), 0520 – 1930 (Dydd Sadwrn) a 0730 – 1930 (Dydd Llun i ddydd Sul)

Gall ein Gwasanaeth Teithio Busnes dderbyn taliad gyda siec bersonol o hyd. Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi (gweler ar y dudalen nesaf), copi o'r prawf preswylfa a siec bersonol yn daladwy i 'TfW Rail' i Freepost TFWRail Customer Relations (At sylw: Business Travel).

## Pwy sy'n gymwys?

Unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn sy'n preswyllo yn yr ardaloedd cod post canlynol:

SA5 4, SA4 0, SA4 6, SA4 4, SA4 8, SA4 9, SA14 9, SA15 2, SA15 3, SA15 1, SA14 8, SA4 8, SA4 6, SA14 6, SA18 3, SA18 2, SA18 1, SA19 6, SA19 7, SA19 9, SA19 8, SA20 0, LD4 4, LD5 4, LD2 3, LD1 5, LD6 5, LD1 6, LD8 2, LD7 1, SY7 8, SY7 0, SY9 5, SY7 9

Mae'n bosib i aelodau o Gymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru brynu'r cerdyn rheilffordd waeth beth fo eu cod post.

Am fanylion pellach ynglŷn â Chymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru, ymwelwch â [www.howlta.org.uk](http://www.howlta.org.uk)



## Ffurflen Gais am Gerdyn Rheilffordd Llinell Calon Cymru

Dim ond os hoffech dalu am eich cerdyn rheilffordd â siec y dylech lenwi'r ffurflen hon. Gweler drosodd am fanylion. Nodwch fod yn rhaid i bob ymgeisydd fod yn 16 oed neu'n hŷn.

Llenwch mewn inc gan ddefnyddio priflythrennau

Teitl Mr / Mrs / Ms / Miss / Arall \_\_\_\_\_

Blaenlythrennau    Cyfenw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Tref \_\_\_\_\_ Cod post \_\_\_\_\_

Rhif ffôn \_\_\_\_\_ Rhif ffôn symudol \_\_\_\_\_

Llofnod \_\_\_\_\_

E-bost (dewisol) \_\_\_\_\_

Dim ond Trafnidiaeth Cymru fydd yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ac NI FYDDWN yn ei rhannu â thrydydd parti.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn gwybodaeth am gynigion arbennig a chynhyrchion newydd gan Trafnidiaeth Cymru, cofrestrwch i'n cylchlythyr ar-lein [trctrenau.cymru/cofrestru](http://trctrenau.cymru/cofrestru)**



# TEITHIO'N SAFFACH. CYNLLUNIO YMLAEN LLAW. ARCHEBU SEDD.

Er mwyn cadw pellter cymdeithasol, does dim cymaint o le ar gael ar ein trenau.

Archebwch sedd cyn teithio. Os na fyddwch chi'n gwneud hynny a bod y trê'n yn llawn, efallai bydd rhaid i chi deithio ar adeg wahanol pan fydd lle ar gael.

Sganiwch y cod QR, ffoniwch 0333 3211 202 neu ewch i [trctrenau.cymru/cadw-seddi](https://trctrenau.cymru/cadw-seddi)



TRAFNIDIAETH CYMRU  
TRANSPORT FOR WALES